



HOUSES OF PARLIAMENT

Pecyn cymorth ar
gyfer digwyddiadau
a gweithgareddau
**Wythnos
Senedd y
DU**

ukparliamentweek.org
#WSDU16



TREFNU EICH DIGWYDDIAD NEU
WEITHGAREDD



Parliament Week
Engage. Explore. Empower.

Dod o hyd i leoliad

Mae Wythnos Senedd y DU yn helpu cysylltu pobl â Senedd y DU, ennyn eu diddordeb a rhoi gwybod iddynt am ei gwaith, ble bynnag maen nhw. Er bod yna wastad ambell ddigwyddiad yn Senedd y DU, rydym yn annog ein partneriaid i gynnal digwyddiadau ledled y DU. Dyma gyngor i chi ddod o hyd i leoliad yn eich ardal leol:

- Cysylltwch â'ch AS lleol a allai eich cyfeirio at fudiad lleol y gallech fynd ato (esboniwch eich bod chi'n bwriadu cynnal digwyddiad Wythnos Senedd y DU a pham y byddai o fudd iddo eich cynorthwyo chi â hyn)
- Cysylltwch â chynghorwr lleol i ofyn a oes modd defnyddio llecyn yn swyddfa/siambwr/neuadd dref ei gyngor
- Yn aml, mae gan ysgolion a phrifysgolion lecyn i gynnal digwyddiadau – ewch at un yn eich ardal leol

Hefyd, gallai gweithio gyda mudiad partner arall sy'n cymryd rhan yn Wythnos Senedd y DU wella eich mynediad i gyllid a chyhoeddusrwydd, llenwi bwlch sgiliau a'ch helpu i gael y lleoliad cywir.

Gwahodd siaradwyr

Gallai siaradwyr yn eich digwyddiad gynnwys gwleidyddion, gweithredwyr lleol, newyddiadurwyr neu academyddion sydd ag arbenigedd mewn mater sy'n berthnasol i'ch digwyddiad. Meddyliwch yn ofalus am eich cynulleidfâ a phwy fyddent am glywed oddi wrtho. Gall cael siaradwr adnabyddus helpu cael cyhoeddusrwydd ar gyfer digwyddiad, yn enwedig os mae'n ymrwymo i drydar neu hyrwyddo'r digwyddiad ar eich rhan.

Sicrhewch eich bod chi'n cysylltu â siaradwyr posib gymaint ymlaen llaw â phosib – po fwyaf y rhybudd a roddir iddynt y tebycaf y bydd modd iddynt fynychu. Peidiwch â phoeni gormod am gadarnhau'r holl wybodaeth ynglŷn â'r digwyddiad. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw rhoi gwybod iddynt am y dyddiad a'r amser, yn ogystal â rhoi trosolwg iddynt o'r digwyddiad a'r hyn rydych am iddynt ei wneud.

Unwaith mae'r siaradwr wedi cytuno mynychu, efallai byddwch am roi briff cryno iddo o ran pwy arall sy'n mynychu, at ddiben pwy mae'r digwyddiad a beth hoffech iddo ei wneud. Mae angen mwy o arweiniad ar rai siaradwyr nag eraill felly caniatewch ddigon o amser i sicrhau eu bod yn barod.

ASau ac Aelodau Tŷ 'r Arglwyddi

Efallai byddech chi â diddordeb mewn estyn gwahoddiad i'ch AS lleol neu Aelod o Dŷ 'r Arglwyddi fynychu eich digwyddiad, naill ai i siarad neu fel gwestai. Mae adborth o ddigwyddiadau blaenorol Wythnos Senedd y DU yn dangos bod y gynulleidfâ'n hoff o'r cyfle i siarad ag ASau neu Arglwyddi.

Mae'n werth gwybod bod Aelodau o Dŷ 'r Arglwyddi yn gweithio mewn ffyrdd cwbl wahanol i ASau – nid ydynt yn cynrychioli etholaeth yn yr un ffordd a chânt eu dethol i ymuno â Thŷ 'r Arglwyddi ar sail eu harbenigedd. Cewch wybod mwy am Dŷ 'r Arglwyddi yma: www.parliament.uk/lords

Rydych yn fwy tebygol o gael ymateb cadarnhaol gan ASau ac Arglwyddi pan fyddwch yn mynd atynt yn uniongyrchol, felly peidiwch â bod ofn cysylltu â nhw. Mae ASau yn cael cannoedd o e-byst, llythyron a galwadau y dydd felly gallwch alw eu swyddfa os nad ydych yn cael ymateb o fewn cwpl wythnosau.

Sut i wahodd Aelodau:

- Chwiliwch am Aelodau o Dŷ 'r Arglwyddi yn ôl eu maes arbenigedd www.parliament.uk/mps-lords-and-offices/lords
- Mae ASau ac Aelodau o Dŷ 'r Arglwyddi yn tueddu cael dyddiaduron prysur iawn, felly ceisiwch gysylltu â nhw gynted â phosib
- Mae ASau ac Aelodau o Dŷ 'r Arglwyddi fel arfer yn San Steffan pan fydd sesiwn yn Senedd y DU. Mae hyn yn golygu, oni bai bod eich lleoliad yn Llundain, efallai bydd yn anodd iawn iddynt fynychu yn ystod y cyfnodau hyn. Mae dydd Gwener yn llai tebygol o fod yn ddiwrnod sesiwn, felly os nad ydych yn Llundain, mae'n werth meddwl am wahodd AS neu Aelod o Dŷ 'r Arglwyddi i fynychu digwyddiad ar nos Iau neu ar ddydd Gwener pan fyddant yn fwy tebygol o allu mynychu.

Tocynnau

Os mae eich digwyddiad Wythnos Senedd y DU yn agored i'r cyhoedd, efallai byddwch yn dymuno darparu tocynnau i'ch helpu rheoli'r niferoedd. Rydym yn argymhell defnyddio safleoedd fel Eventbrite neu Billetto ar gyfer tocynnau i'ch digwyddiadau – cewch eu defnyddio'n rhad ac am ddim os na chodir tâl i fynychu eich digwyddiad. Serch hynny, ond nad yw eich digwyddiad yn rhad ac am ddim, byddant yn codi ffi (canran o gost y tocynnau).

- <https://billetto.co.uk/>
- <https://www.eventbrite.co.uk/>

Codi Arian

Efallai byddwch am godi arian ychwanegol i dalu am gostau cynnal eich digwyddiad neu weithgaredd Wythnos Senedd y DU. Er nad oes modd i ni gyllido unrhyw ddiwyddiadau partner ein hunain, rydym yn fodlon ysgrifennu o blaid unrhyw gais am gyllid rydych chi'n eu gwneud, cyhyd ag y bo'r cais yn ymwneud yn uniongyrchol â digwyddiad Wythnos Senedd y DU.

Pan fyddwch yn mynd at gyllidwyr, bydd angen cynllun digwyddiad llawn a chyllideb arnoch a bydd angen i chi allu esbonio diben y digwyddiad yn glir. Mae'r rhan fwyaf o gyllidwyr wedi gosod meini prawf ar gyfer y prosiectau y byddant yn rhoi arian iddynt, felly gwnewch eich gwaith ymchwil a sicrhewch eich bod chi'n anelu eich cais ac yn esbonio sut mae eich digwyddiad yn cyrraedd eu meini prawf.

Os mae arian yn bryder, gall fod o gymorth meddwl am ba weithgaredd neu brosiectau rydych chi wedi eu trefnu y gallech eu hysbysebu fel digwyddiad Wythnos Senedd y DU, yn hytrach na gwario arian nad oes gennych!

- Mae'r wefan hon yn darparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut i reoli'r arian ar gyfer eich digwyddiad: www.londoneventstoolkit.co.uk/finance/managing-money/

Adnoddau ar gyfer eich digwyddiad

Fel partner Wythnos Senedd y DU, byddwch chi'n cael adnoddau rhad ac am ddim i ddsbarthu yn eich digwyddiad. Bydd y rhain yn cynnwys tafenni a deunydd hyrwyddo fel pennau am ddim.

Ar y diwrnod: Iechyd a diogelwch

Os ydych yn gwahodd y cyhoedd i gyfranogi yn eich digwyddiad, chi fydd â chyfrifoldeb, neu ddyletswydd gofal, dros ddiogelwch y cyhoedd. Mae hyn yn golygu bod gennych chi ddyletswydd gofal dros eich cynulleidfa, fel y trefnydd.

Mae dyletswydd gofal yn ymrwymiad cyfreithiol sy'n gofyn i chi gadw at safon resymol o ofal wrth berfformio unrhyw weithred a allai wneud niwed i eraill. Fel trefnydd y digwyddiad, bydd wastad gennych ddyletswydd gofal dros bobl sy'n gweithio yn eich digwyddiad neu sy'n ymweld ag ef, a rhaid i ddiogelwch wastad fod y brif ystyriaeth cyn, yn ystod ac ar ôl eich digwyddiad, beth bynnag fo'r maint.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau y cedwir at ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch ar bob lefel rheolaeth. Gall y goblygiadau fod yn hynod ddifrifol os nad ydych yn ystyried eich dyletswydd gofal, o ddirwyon mawr i garcharu.

Am y rheswm hwn, arfer gorau yw bod â pherson cymwys wedi'i enwi sy'n gyfrifol am ddiogelwch yn eich digwyddiad – ac mewn digwyddiadau mwy, efallai bydd angen swyddog diogelwch penodedig. Bydd angen i chi sicrhau eich bod wedi datblygu prosesau ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch a bydd yr holl ddogfennaeth ar gael i'ch awdurdod lleol ei hadolygu os bydd rhywbeth yn digwydd.